

CYNLLUN ARDAL LLANUWCHLLYN

Mehefin 2021

Cyflwyniad: Mae aelodau Cyngor Cymuned Llanuwchllyn wedi trafod, yn ystod argyfwng pandemig Covid-19 a'r cyfyngiadau cysylltiedig, fod angen cynllunio i'r dyfodol mewn ymateb i holl effeithiau'r pandemig ar yr ardal a'i phobl.

Nodwyd fod y pandemig, y cyfyngiadau a ddaeth yn ei sgil, a'i effaith ar fywyd pob dydd y trigolion wedi bod yn enfawr, a bod y bwlch yng ngweithgareddau cymdeithasol y gymuned, a'r gwahanol heriau i'r gymuned, wedi golygu fod angen cynllunio manwl i ail gychwyn y gweithgareddau.

Cytunwyd mai'r 3 prif elfen sy'n effeithio ac yn cynnal cymuned yw:

- Cartrefi – sicrhau cyflenwad o dai addas a phriodol i ateb gofynion y trigolion.
- Economi a chyflogaeth – sicrhau swyddi a lleoliadau gwaith addas.
- Gwasanaethau a gweithgareddau cymdeithasol – sicrhau gwasanaethau a digwyddiadau hamdden a diwylliannol, hyn yn cynnwys gwasanaethau iechyd, gofal a lles cyffredinol.

Cytunwyd felly i ymchwilio i'r 3 elfen uchod, er mwyn:

- Adnabod cryfderau a gwendidau'r gymuned.
- Gosod sylfaen a rhoi arweiniad polisi i waith y Cyngor Cymuned a sefydliadau a chyrrff cyhoeddus yr ardal.
- Lleihau effaith y pandemig a'r cyfyngiadau, gan ail adeiladu rhwydweithiau cymunedol a chymdeithasol yr ardal.

Nodwyd y gwerthoedd craidd canlynol i waith y Cyngor Cymuned:

- Cynnal a chefnogi lles cyffredinol yr ardalwyr.
- Cynnal a chefnogi gwasanaethau cyhoeddus lleol.
- Cynnal a chefnogi gweithgareddau cymunedol lleol.
- Cynnal a chefnogi economi leol gynaliadwy.

Nodwyd hefyd yr amcanion craidd canlynol ar gyfer y Cynllun Ardal:

- Dod a sefydlogrwydd yn ôl i'r gymuned a'r ardalwyr.
- Creu amgylchiadau ffafriol fel bod pobl ifanc eisiau ac yn medru ymsefydlu yn yr ardal.
- Creu cymuned fywiog a difyr ble mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu yn naturiol.
- Creu diwylliant o gydweithio er lles yr ardal rhwng y Cyngor Cymuned a chyrrff eraill.

DADANSODDIAD ‘SWOT’ O GYMUNED LLANUWCHLLYN

CRYFDERAU Cymuned fywiog a phrysur. Ymdeimlad cryf o berthyn. Nifer dda o deuluoedd ifanc.	GWENDIDAU Pellter gwasanaethau cyhoeddus. Pellter o ganolfannau gwaith. Stoc dai anaddas i ofynion modern.
CYFLEON Defnyddio sgiliau a chysylltiadau'r trigolion. Parodrwydd pobl i weithio dros y gymuned. Dymuniad pobl ifanc i fyw a gweithio'n lleol.	BYGYTHIADAU Pwysau ar y farchnad dai. Pwysau ar y diwydiant amaeth. Diffyg cyfleon gwaith yn lleol.

AROLWG CARTREFI

Yn ystod cyfnod Covid-19 (gwanwyn 2021) cytunodd y Cyngor Cymuned i wneud arolwg o holl gartrefi'r gymuned. Roedd hyn er mwyn cael gwybodaeth ffeithiol gadarn am y stoc dai er mwyn medru asesu a yw'n ateb gofynion cyfredol yr ardalwyr, er mwyn adnabod tueddiadau, ac adnabod unrhyw risgiau i sefydlogrwydd y gymuned a'r ardalwyr, ac er mwyn rhoi sail i flaenoriaethau gweithredu a pholisïau'r Cyngor Cymuned.

Rhai ffigyrau allweddol (gweler atodiad Arolwg Cartrefi 2021):

1. Mae 53% o dai'r ardal yn y pentre, a 47% yn y wlad.
2. Mae cyfartaledd y nifer o siaradwyr Cymraeg yn 81% (84% yn y pentre a 76% yn y wlad).
3. Mae 49 tŷ heb unrhyw le i barcio car (y mwyafrif mawr yn y pentre).
4. Mae 49 tŷ yn uned wyliau o rhyw fath (15%.
5. Mae 22 o dai gwag (6.5%)
6. Mae cyfanswm o 71 o dai sydd ddim yn gartrefi parhaol (21.5%)
7. Mae 57 o dai bychain yn y pentre. O beidio ystyried Maes y Pandy mae 45 o hen dai bychain yn y pentre, llawer o'r rhain heb le i barcio ac am wahanol resymau yn anaddas ar gyfer yr oes hon.

Canlyniadau, Oblygiadau a Datrysiaidau:

Canlyniad	Oblygiadau	Datrysiaid
Cyfartaledd siaradwyr Cymraeg yn 81%.	Allfudiad pobl a theuluoedd ifanc o'r ardal, a mewnfudo o ardaloedd eraill wedi arwain at ostyngiad yn y ganran o siaradwyr Cymraeg dros y blynyddoedd.	Sicrhau elfen o reolaeth yn y farchnad dai: ee prynu tai i'w rhentu neu i'w hail werthu i drigolion lleol. Codi ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg ymysg mewnfudwyr a'u hannog i fynychu gwersi Cymraeg.
Canran y tai haf / tai gwyliau yn 15% a chanran y tai gweigion yn 6.5% - cyfanswm o 21.5% o'r tai ddim yn gartrefi parhaol.	Dirywiad cyffredinol yn y gymdeithas, y diwylliant ac yng ngwasanaethau hanfodol yr ardal. Arwain at gynydd mewn prisiau tai.	Mabwysiaidau polisi cynllunio fyddai'n gwrthwynebu trosi cartrefi parhaol yn unedau gwyliau neu greu unedau gwyliau o'r newydd, ond gan eithrio datblygiadau cynaliadwy, er enghraifft: • Twristiaeth gynaliadwy • Twristiaeth ddiwylliannol • Twristiaeth amgylcheddol • Datblygiad fyddai'n cefnogi uned deuluol. • Datblygiad ble mae'r budd cymunedol yn amlwg.
49 o dai yn yr ardal heb unrhyw le i barcio ceir.	Anodd gwerthu tŷ heb le addas i barcio. Anodd denu teulu lleol. Creu rhwystr ac anhwylystod ar y stryd.	Creu man parcio addas (ee ym Maes y Pandy neu ger Tŷ'n Ddôl. Rhoi ystyriaeth i anghenion parcio wrth ymateb i geisiadau cynllunio.
57 o dai bychain yn y pentre.	Llawer yn mynd yn unedau gwyliau gan nad ydynt bellach yn ateb gofynion teuluoedd ifanc.	Cefnogi datblygiadau fyddai'n addasu'r tai i ateb gofynion modern. Cefnogi datblygiadau tai newydd canolig eu maint yn hytrach na thai bychain a fflatiau – datblygiadau tai preifat a thai rhent yn ôl y galw.

Polisi Cynllunio Cyffredinol		Cefnogi ac annog datblygiadau sy'n gydnaws â gofynion yr ardal – yn benodol datblygiadau bychain o dai canolig eu maint . Gwrthwynebu datblygiadau ble mae elfen o or-ddatblygu a allai effeithio ar sefydlogrwydd y stoc dai yn yr ardal.
Syniadau eraill	Creu Cysylltiadau	Defnyddio gwefan neu dudalen Facebook Llanuwchllyn i greu rhwydwaith a fyddai'n hysbysebu tai sydd ar werth neu ar gael i'w rhentu. Cydweithio gyda asiantwyr tai i gadw'r wybodaeth yn gyfredol, ac annog teuluoedd lleol i rannu'r wybodaeth gyda'u cydnabod.

Crynodeb: Yn ystod y broses o greu'r arolwg hwn daeth yn amlwg:

- Fod cyflenwad sefydlog o dai yn yr ardal yn gwbl allweddol i gynnal cymuned hyfyw.
- Fod y sefyllfa yn amrywio o ardal i ardal, a bod angen datrysiadau gwahanol i ardaloedd gwahanol.
- Fod angen ateb gofynion lleol a chanfod y balans allweddol – sef sicrhau twf cynaliadwy yn y stoc dai er mwyn ateb gofynion y gymuned leol gyda thai addas, ond ar yr un pryd sicrhau nad oes gormod o dai yn cael eu datblygu, a hynny'n arwain at fewnlifiad mawr neu at i nifer o dai gael eu trosi'n unedau gwyliau.

Gwelwyd yn ystod gaeaf 2020 / 2021 fod perygl i'r farchnad dai fynd allan o reolaeth leol oherwydd dymuniad llawer o bobl, yn dilyn effeithiau cyfyngiadau Covid-19, i:

- Symud i ardal wledig i fyw.
- I ymddeol neu gael ail gartref yn yr ardal.
- I weithio o adref o ardal wledig.

Gwelwyd mai blaenoriaethau'r Cyngor Cymuned i'r dyfodol rhagweladwy fydd sefydlogi'r sefyllfa a rhwystro rhagor o dwf yn y farchnad ail gartrefi/ unedau gwyliau.

Nodwyd nad yw atal twf ail gartrefi ac unedau gwyliau ynddo'i hun ddim yn ateb pob problem yn y farchnad dai, a bod angen gofalu nad yw unrhyw bolisi yn arwain yn anfwriadol at symudiad mawr o fewn y boblogaeth.

Fel amcan gyffredinol felly cytunwyd y dylai'r Cyngor Cymuned a gwneuthurwyr polisi eraill yr ardal anelu at Bolisi Preswylwyr Lleol yn hytrach na Pholisi Tai Cymdeithasol neu Bolisi Preswylwyr Parhaol, a bod angen ystyried y budd cymunedol ymhob polisi a phenderfyniad.

Gwelir yn aml hefyd fod prinder o safleoedd adeiladu ar gyfer codi tai, a bod hyn yn medru bod yn rhwystr os yw trigolion lleol angen tŷ sy'n ateb eu gofynion unigol, neu fod pobl yn dymuno symud yn ôl i'w hardal enedigol.

Mae lle felly i drafodaethau gyda'r awdurdod cynllunio, perchenogion tir a sefydliadau eraill gyda golwg ar ryddhau tir ar gyfer datblygiadau tai fydd yn ateb gofynion lleol.

Bydd y wybodaeth a'r casgliadau uchod yn y maes tai yn cynorthwyo'r Cyngor Cymuned i lunio polisi, boed hynny ar sail gweithredu, cefnogi, dylanwadu neu fynegi barn.

AROLWG CYFLOGAETH

Gwnaed arolwg o sefyllfa cyflogaeth yn yr ardal er mwyn casglu gwybodaeth allweddol am:

- Maes gwaith y trigolion.
- Sector waith y cyflogwr.
- Y math o swydd o fewn y maes a'r sector.
- Telerau cyflogaeth y swydd (ee parhaol / rhan amser neu dymhorol)
- Lleoliad y gwaith

Gweler atodiad ' Arolwg Cyflogaeth Llanuwchllyn' sy'n dangos fod:

- Canran uchel (36%) yn hunangyflogedig (hyn yn cynnwys amaethwyr a chontractwyr)
- Canran uchel (36%) yn gwneud gwaith proffesiynol o wahanol natur.
- Canran uchel (52%) naill ai yn gweithio o gartref neu yn teithio yn bell i'r gwaith.
- Canran uchel (25%) yn gweithio yn y sector wasanaethau o rhyw fath.

Mae hyn i gyd yn awgrymu fod nifer fawr o bobl yn dewis byw yn yr ardal, a'u bod yn barod i deithio cryn bellter i'r gwaith i sicrhau hynny.

Nodwyd fod cyflogaeth a gwasanaethau lleol da yn y pentref, sy'n cynnig nifer dda o swyddi lleol. Mae hyn yn cynnwys:

- Ysgol Gynradd.
- Tafarn / Siop / Tŷ Bwyta
- Garej
- Amaethwyr a Masnachwyr Amaethyddol
- Gwersyll yr Urdd.
- Rheilffordd.

Mae'r Cyngor Cymuned yn sylweddoli gwerth y sefydliadau yma, ac yn barod i'w cynorthwyo a'u hybu ymhob ffordd bosibl.

Mi fydd y Cyngor Cymuned felly yn:

- Cefnogi busnesau lleol.
- Cefnogi symudiad greu neu leoli swyddi yn lleol.
- Cefnogi datblygiad busnesau newydd lleol sy'n gydnaws â natur yr ardal.
- Cefnogi datblygiadau TG sy'n galluogi pobl i weithio o adref.

AMAETHYDDIAETH

Mae'r Cyngor Cymuned yn gwerthfawrogi fod amaethyddiaeth yn cynnal nifer dda o deuluoedd yn yr ardal, yn cynnig gwaith i gontractwyr o bob math, ac yn allweddol i gynnal y masnachwyr amaethyddol yn y pentre.

Mae'r cyngor hefyd yn sylweddoli fod y diwydiant o dan bwysau o wahanol gyfeiriadau, yn bennaf oherwydd yr hinsawdd wleidyddol bresennol.

Mi fyddai'r Cyngor Cymuned felly yn gefnogol i fentrau arallgyfeirio (yn y maes amgylcheddol, y maes cynaliadwyedd neu yn y maes cynnyrch fferm) a fyddai'n dod a budd cymunedol amlwg.

TWRISTIAETH

Mae'r Cyngor Cymuned yn cydnabod fod twristiaeth yn cyfrannu at economi'r ardal, gan ychwanegu at incwm a hyfywdra busnesau lleol a'r gwasanaethau lleol y cyfeirir atynt uchod (tŷ bwyta a garej etc).

Mae'r Cyngor Cymuned hefyd yn cydnabod fod gor-dwristiaeth yn medru bod yn niweidiol i sefydlogrwydd cymuned, gan effeithio ar y farchnad dai yn lleol (trwy godi prisiau tai y tu hwnt i bobl leol), yn medru arwain at fewnfudiad o bobl, ac yn medru cael effaith ar wasanaethau lleol ac ar yr amgylchedd leol.

Mae'r Cyngor Cymuned felly yn cytuno y dylai unrhyw ddatblygiad yn y maes twristiaeth yn yr ardal:

- Fod yn dwristiaeth gynaliadwy, hynny yw, yn gweithredu yn y maes addysg, diwylliant neu amgylcheddol
- Fod yn gydnaws â'r ardal o ran maint a natur y gweithgaredd.
- Fod yn dangos budd a rheolaeth gymunedol amlwg.
- Fedru dangos nad yw'n orddatblygiad o unrhyw fath.

MATERION CYMUNEDOL

Mae nifer fawr o gymdeithasau ac adnoddau cymunedol yn yr ardal, ac mae'r Cyngor Cymuned yn sylweddoli gwerth y rhain i gynnal cymuned fywiog. Mae'r prif adeiladau ac asedau cymunedol yn cynnwys:

Neuadd Bentref: Mae'r Cyngor Cymuned yn cefnogi'r Neuadd Bentref yn ariannol, ac yn gweithredu fel Ymddiriedolwyr Gwarchodol i elusen y neuadd. Mi fyddai'r Cyngor Cymuned yn gefnogol i ddatblygiadau a fyddai'n gwella'r ddarpariaeth yn y neuadd, hyn yn cynnwys addasu'r neuadd i ateb gofynion newydd yn dilyn pandemig Covid-19. Mi fyddai'r Cyngor Cymuned hefyd yn gefnogol i ddatblygiad Gweithdy'r Saer ger y neuadd fel cyfleuster cymunedol ychwanegol.

Cae Pêl-droed: Mae'r Cyngor Cymuned yn gefnogol i ddatblygiad y Clwb Pêl-droed, y cae a'r cyfleusterau, ac yn gweld fod y datblygiadau diweddar wedi ychwanegu llawer at adnoddau'r pentref.

Capeli a'r Ysgoldy: Mae'r Cyngor Cymuned yn cydnabod y rôl bwysig sydd gan gapeli a Gofalaeth Fro'r ardal yn y gymuned. Mi fyddai'r Cyngor Cymuned hefyd yn gefnogol i

ddatblygiad Gardd Dementia ar dir yr Ysgoldy fel ychwanegiad i'r cyfleusterau amser hamdden yn y pentre, yn benodol fel cyfleuster i rai sy'n dioddef o glefyd dementia.

Meysydd Parcio a Llochesi Bws: Mae'r Cyngor Cymuned yn berchen ar faes parcio'r fynwent ac ar nifer o lochesi bws yn yr ardal. Mae'r cyngor yn ymrwymo i gynnal yr asedau presennol, ac i wneud pob ymdrech i gynyddu'r ddarpariaeth barcio yn yr ardal er mwyn lliniaru rhywfaint ar broblemau parcio yn y pentref.

Y Fynwent Newydd: Mae'r Cyngor Cymuned yn gyfrifol am y fynwent, ac yn ymrwymo i gynnal a chadw'r safle i'r safon uchaf bosibl, hyn yn ogystal â gweithredu fel awdurdod claddu i'r fynwent.

Toiledau Cyhoeddus: Mae'r Cyngor Cymuned yn gyfrifol am gynnal y toiledau cyhoeddus, ac yn ymrwymo ble'n bosibl i gynnal yr ased, y gwasanaeth glanhau, y gwasanaethau dwr a thrydan etc ac am gynnal a chadw'r adeilad.

Llwybrau Cyhoeddus: Mae'r Cyngor Cymuned yn cydnabod pwysigrwydd llwybrau cyhoeddus fel ased i'r ardalwyr, ac fel modd o hyrwyddo iechyd a lles y trigolion, a'u hadnabyddiaeth gyffredinol o'r ardal. Mi fydd y Cyngor Cymuned yn cydweithio gyda Chyngor Gwynedd a Phartneriaeth Penllyn i gynnal y rhwydwaith, ac i wella'r rhwydwaith ble bo hynny'n bosibl. Mae'r cyngor hefyd yn gefnogol i ddatblygiad Llwybr Tegid (ymestyn y llwybr ac uwchraddio wyneb y llwybr), yn cydnabod gwerth Llwybr yr Aran i drigolion lleol ac ymwelwyr, ac yn gweld fod modd hyrwyddo teithiau cerdded lleol fel gweithgaredd cymunedol a fyddai'n cyfrannu at iechyd a lles cyffredinol yr ardalwyr.

Cae Chwarae Plant: Mae'r Cyngor Cymuned yn gweld pwysigrwydd cael cae chwarae i blant yr ardal, ac yn barod i gefnogi a chwarae rôl fel y bo angen.

Mudiadau a chymdeithasau: Mae nifer fawr o gymdeithasau yn yr ardal, sy'n cynnig rhaglen o weithgareddau i bobl o bob oedran (o oedran meithrin hyd at henoed). Mae hyn yn cynnwys gweithgareddau diwylliannol, crefyddol a chelfyddydol, gweithgareddau chwaraeon a hamdden.

Mae gweithgareddau achlysurol hefyd (sioe, gŵyl, eisteddfod, cyngherddau, nosweithiau coffi a gigs) yn cael eu trefnu yn achlysurol.

Mae gan y Cyngor Cymuned rôl i'w chwarae yn cefnogi mudiadau a digwyddiadau, ac hefyd i drefnu gweithgareddau fel y bo'n addas. Gall y cyngor gefnogi mudiadau yn ariannol os ydynt yn gwella ansawdd iechyd a lles y trigolion, a gall hefyd gynnal gwefan gymunedol sy'n hyrwyddo'r mudiadau a'r digwyddiadau yma.

Mae'r Cyngor Cymuned yn cefnogi ymdrechion i gynnal papurau lleol (wythnosol a misol).

Y Ffordd Ymlaen

Mae casgliadau'r Cynllun Ardal yma yn dangos fod Llanuwchllyn yn gymuned fywiog a hyfyw, lle mae cymdogaeth dda a'r syniad o berthyn yn parhau yn bwysig. Mae hefyd draddodiad diwylliannol cryf sy'n parhau i gael ei gynnal, ac sy'n newid yn ôl gofynion yr oes.

Fel cymunedau gwledig eraill mae'r ardal yn wynebu heriau, gan bwysau o'r tu allan, gan allfudo pobl ifanc, ac hefyd gan heriau ychwanegol Covid-19 sydd wedi dod a gweithgarwch cymunedol i ben am gyfnod hir. Gwelir mai denu pobl ifanc a theuluoedd i sefydlu yn yr ardal, a hybu hyn ymhob ffordd bosibl, yw un o'r prif heriau sy'n wynebu'r ardal.

Bydd y Cyngor Cymuned felly yn defnyddio'r Cynllun Ardal yma fel sail i hybu'r ardal yn dilyn cyfyngiadau Covid-19, fel sail i drafodaethau pellach gyda thrigolion lleol, mudiadau lleol a chyrff cyhoeddus sy'n gweithio dros yr ardal (ee Cyngor Gwynedd, Parc Cenedlaethol Eryri, Llywodraeth Cymru, Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr) a sefydliadau allweddol eraill.

Bydd y ddogfen hefyd yn sail i benderfyniadau'r Cyngor Cymuned i'r dyfodol, boed yn benderfyniad i weithredu, i gefnogi, i ddylanwadu neu i fynegi barn.